

ATHRAWON A RHINI

Adnabod plant a phobl ifanc sy'n disgleirio mewn celf a chrefft?

PAM DDIM EU HENWEBU AR GYFER

CRIW CELF 2020

CRIW CELF 2020

Athrawon a Rhieni – a ydych yn adnabod plant a phobl ifanc sy'n disgleirio mewn celf a chrefft? Pam ddim eu henwebu ar gyfer Criw Celf?

Mae Criw Celf yn gynllun cenedlaethol sy'n datblygu talent artistiaid ifanc mwy abl a thalentog (MATH) drwy gynnig profiadau cyffroes. Mae celf a chrefft yn hwyl ac yn ffordd wych o gyfarfod pobl gyda'r un diddordebau ac i ddysgu pethau newydd. Fel aelod o Criw Celf mi fydd yr artistiaid ifanc yn:

- Cael eu hannog i wireddu eu potensial
- Datblygu eu sgiliau, hyder ac ehangu eu gorwelion
- Gweithio gydag artistiaid proffesiynol uchel eu parch
- Cael eu hannog i greu gwaith o ansawdd uchel
- Dathlu elfennau positif o gelf a chrefft
- Cael cyfrannu at, a chefnogi eu haddysg drwy raglen sy'n cefnogi'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Ffi ymaelodi i rai llwyddiannus yw £42 sydd yn cynnwys:

- Chwe sesiwn cyffroes gydag artistiaid gwahanol pob tro, rhwng Ionawr a Mehefin 2020
- Arddangosfa broffesiynol o'r gwaith mewn oriel gelf

Un o negeseuon allweddol Criw Celf yw cynnig cyfleoedd cyfartal i bawb ac **mae bwrsari ar gael i blant sy'n derbyn cinio ysgol am ddim** – cysylltwch â ni am fwy o fanylion

Fel ysgol gallwch enwebu hyd at 10 disgybl o flwyddyn 5 i 9. Mi fydd angen i'r ymgeiswyr gyflwyno darn o waith 2D, dim mwy na maint A3, sy'n adlewyrchu eu sgiliau creadigol - fydd hefyd angen paragraff byr yn egluro pam yr hoffent ymaelodi â Chriw Celf. (Dim mwy na 50 gair) Yna atodwch ar gefn y gwaith gyda'r label cynwysedig wedi ei lenwi yn gyflawn, i'r cyfeiriad uchod erbyn y **9fed o Ragfyr, 2019**.

Mae'n bosib i rieni enwebu eu plant hefyd, ond fydd angen llofnod athro ar y ffurflen.

Mae croeso i blant sy'n derbyn eu haddysg gartref ymgeisio.

Lia Griffith, Cydlynnydd Criw Celf Gwynedd a Môn
Oriol Môn, Rhosmeirch, Ynys Môn, LL77 7TQ
liagriffith@ynysmon.gov.uk
01248 752027 • 01248 724444

Label Criw Celf

Enw

Bl. ysgol..... Oedran.....

Ysgol.....

Cyfeiriad cartref.....

Rhif ffôn cartref.....

Rhif ffôn symudol rhiant/gwarcheidwad.....

Rhif ffôn symudol plentyn (os oes).....

Cyfeiriad ebost rhiant/gwarcheidwad.....

A yw'r disgybl wedi ei adnabod fel disgybl "Mwy Abl a Thalentog" yn y maes celf? Ie Na

Enw a llofnod athro.....



Cynllun wedi ei gefnogi gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru

www.criwcelf.co.uk

